# Cynnig i Ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau

## Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc

**Fersiwn i blant**

**Hydref 2023**

# CYFLWYNIAD

**Mae Cyrff Llywodraethol Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau yn ystyried newid strwythur llywodraethol y dair ysgol trwy sefydlu ffederasiwn.**

**Cyn penderfynu ar gynnig i ffederaleiddio, mae'n rhaid i'r cynigwyr (sef Cyrff Llywodraethol y dair ysgol) roi gwybod i chi fel dysgwyr yr ysgol, yn ogystal ag ymgynghorai eraill, a rhoi cyfle i chi fynegi barn ar y cynnig.**

**Mae'r llyfryn hwn yn ceisio egluro beth fyddai ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau yn ei olygu i chi fel disgybl.**

## Beth yw'r **cynllun** ?

Mae cyrff llywodraethol Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau wedi hysbysu Adran Addysg Cyngor Gwynedd o'u bwriad i ymgynghori ar y bwriad i ffederaleiddio'r dair ysgol.

## Beth yw **ffederasiwn** ?

Ffederasiwn yw pan mae dwy ysgol neu fwy yn cydweithio'n ffurfiol, yn bennaf trwy rannu

**un corff llywodraethol**.

## Beth yw **corff llywodraethol** ?

Corff llywodraethol yw'r grŵp o bobl sy'n gweithio'n agos hefo pennaeth a staff eich ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn eich addysgu a dysgu chi'n llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethu'n atebol am berfformiad yr ysgol, h.y. canlyniadau'r ysgol, a'r ffordd mae cyllid ac adnoddau'r ysgol cael eu defnyddio.

## Beth fydd **enw'r** Ffederasiwn?

Yr enw a gynigir ar gyfer y ffederasiwn yw…

# Ffederasiwn BroTanGelli

## **Pryd** fydd y newid yma'n digwydd?

Os caiff y cynnig ei dderbyn, mi fydd y ffederasiwn yn dod i rym ar…

**16 Chwefror 2024**

## Beth mae'r newid yma yn ei olygu ?

- Nid yw ffedereiddio'r dair ysgol yn golygu unrhyw newid mawr
- Bydd Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau yn parhau fel tair ysgol **ar wahân**
- Gall olygu fod un pennaeth yn gyfrifol am y tair ysgol ac yn rhannu ei hamser yn deg rhwng y tair ysgol
- Bydd eich gwisg ysgol yn aros 'run fath
- Ni fydd newid i enw'r ysgol
- Ni fydd disgwyl i blant nac athrawon presennol symud o ysgol i ysgol.

## Beth yw manteision Ffederaleiddio?

- Does dim angen symud o ysgol i ysgol
- Gwella arweinyddiaeth a sicrhau trefn addysgol dda i'r dyfodol
- Gwella ansawdd addysg
- Gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. chwaraeon a TGCh
- Rhoi cyfle i rannu a datblygu gwybodaeth a sgiliau
- Gall ddarparu cyfleoedd gwell i ddisgyblion gymdeithasu

## Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynllun?

Cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y ffordd ymlaen, rydym eisiau clywed eich barn chi am y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau.

## Sut ydych chi yn cael ymateb?

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau at yr ysgolion i fynegi barn neu gwblhau holiadur.

Mae angen i'r ysgolion dderbyn sylwadau erbyn **23 Tachwedd 2023.**

## Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth a chopi o'r holiadur, cysylltwch gyda'ch pennaeth.
- Gallwch hefyd gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio: moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur at:

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Bro Cynfal,<br>Llan Ffestiniog,<br>Blaenau Ffestiniog,<br>Gwynedd,<br>LL41 4NF | Ysgol Edmwnd Prys,<br>Gellilydan,<br>Blaenau Ffestiniog,<br>Gwynedd,<br>LL41 4DY | Ysgol Tanygrisiau,<br>Tanygrisiau,<br>Blaenau Ffestiniog,<br>Gwynedd,<br>LL41 3SU |

neu:
pennaeth@edmwndprys.ysgoliongwynedd.cymru
pennaeth@tanygrisiau.ysgoliongwynedd.cymru